# Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy

## 13 Medi 2023

Yn Bresennol: Cynghorydd S Alderman, Cynghorydd S Hancock, Dr M Havard, Cynghorydd M James a'r Cynghorydd Mrs S Skyrme-Blackhall.

Hefyd yn bresennol: Jessica Morgan (Pennaeth Datgarboneiddio), Hannah Boyd (Swyddog Datgarboneiddio), Arwel Evans (Swyddog Cadwraeth Ffermio) a Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd).

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.28am)

[Nid oedd y Cynghorydd M James yn bresennol ar gyfer Eitem 1 – Ethol Cadeirydd.]

**1. Ethol Cadeirydd**

Agorodd y Dirprwy Gadeirydd, Dr M Havard, y cyfarfod a dywedodd mai dim ond un enwebiad oedd wedi dod i law ar gyfer y swydd Cadeirydd, sef y Cynghorydd M James.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd M James yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

[Ymunodd y Cynghorydd James â'r cyfarfod wedyn a chymerodd y Gadair.]

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw enwebiad wedi dod i law hyd yn hyn ar gyfer y swydd Dirprwy Gadeirydd.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**3. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Dr R Plummer.

**4. Datgan Buddiannau**

Datganodd y Cynghorydd S Alderman bod ganddo fuddiant personol yn GA23/CLE a GA23/TED yn rhinwedd ei gysylltiadau blaenorol ag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr.

5. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2023 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2023.

6. **Log Gweithredu**

a) Dosbarthu'r gwahanol gyfraddau ar gyfer cymorth mewn-da gwirfoddolwyr

Dywedodd Aelod y dylai'r cyfraddau hyn gynnwys haen ar gyfer Cyfradd Broffesiynol. Cytunodd y Pennaeth Datgarboneiddio i ychwanegu'r wybodaeth hon ac ailddosbarthu'r rhestr i'r Aelodau.

7. **Adroddiad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r Swyddog Datgarboneiddio newydd, Hannah Boyd, a gyflwynodd adroddiad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy oedd yn cynnwys crynodeb o'r ymrwymiadau ariannol cyfredol ar gyfer y cynllun, map o'r prosiectau a gymeradwywyd, diweddariad ar y prosiectau a gwblhawyd ers y cyfarfod diwethaf, a sefyllfa ariannol y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn 2023/24.

Dechreuodd y Swyddog drwy fynd â'r Aelodau drwy dabl oedd yn dangos ymrwymiadau ariannol presennol y cynllun, gan roi crynodeb byr o statws pob prosiect.

Dywedodd un Aelod bod buddsoddiad sylweddol gan y gronfa ym mhrosiect Awyr Dywyll Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a gofynnodd a fyddai'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar leoliad penodol. Cadarnhaodd y Swyddog mai prosiect 3 blynedd oedd hwn fyddai'n edrych ar ardal Sir Benfro gyfan yn hytrach nag ar leoliad penodol. Mewn ymateb i ddiddordeb gan yr Aelodau, cadarnhaodd y Swyddog y byddai'n gwahodd y Swyddog Awyr Dywyll i gyfarfod yn y dyfodol i roi diweddariad ar y prosiect hwn. Roedd yr Aelodau yn hapus â'r cynnig hwn, a gofynnwyd am iddynt gael adroddiad gan y Swyddog Awyr Dywyll cyn y cyfarfod er mwyn rhoi cyfle i ofyn cwestiynau. Gofynnodd Aelod ai nod y prosiect oedd cael achrediad am Awyr Dywyll yn yr ardal, a chadarnhaodd y Swyddog y byddai'n holi ac yn gofyn i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn yr adroddiad gan y Swyddog Awyr Dywyll.

O ran sefyllfa ariannol y cynllun Cronfa Datblygu Cynaliadwy, gofynnodd Aelod a oedd gan y Swyddogion unrhyw syniad a fyddai'r adnodd hwn yn cael ei effeithio yn y dyfodol oherwydd yr hinsawdd ariannol a'r gostyngiad mewn cyllid. Ymatebodd y Pennaeth Datgarboneiddio drwy

gadarnhau bod y cyllid Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (sy'n cwmpasu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, y Cynllun Gwyrddu Amaethyddiaeth a chamau gweithredu eraill o ddatgarboneiddio o gwmpas y Parc) a roddir gan Lywodraeth Cymru yn gais tair blynedd, a bod y cynlluniau yn eu hail flwyddyn ar hyn o bryd. Cadarnhawyd bod £50k wedi'i ddyrannu ar gyfer y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn y drydedd flwyddyn (y flwyddyn nesaf). Yn seiliedig ar hyn, argymhellodd y Pennaeth Datgarboneiddio na ddylid cynnal unrhyw gylch arall o gyllid y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn y flwyddyn ariannol gyfredol gyda'r bwriad o symud y tanwariant i'r flwyddyn ariannol nesaf. Ychwanegodd y Pennaeth Datgarboneiddio ei bod yn bwriadu trafod y mater gyda Rheolwr Cyllid yr Awdurdod i weld a ellir cael unrhyw gyfraniad o gyllideb y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol i roi hwb i gyllideb y Gronfa Datblygu Cynaliadwy i £100k yn unol â'r blynyddoedd blaenorol, ac y byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman, **PENDERFYNWYD**:

a) bod y tanwariant yn y Gronfa Datblygu Cynaliadwy eleni yn cael ei drosglwyddo i gronfa'r flwyddyn ariannol nesaf.

**8. Diweddariad ar y Prosiect Gwyrddu Amaethyddiaeth**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r Swyddog Cadwraeth Ffermio a gyflwynodd adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y prosiectau cyfredol ac ymrwymiadau ariannol presennol y cynllun Gwyrddu Amaethyddiaeth.

Cadarnhaodd y Swyddog bod dau o'r prosiectau wedi'u cwblhau; GA22/REEF a GA22/CAERFAI, a disgwylir adroddiadau cynhwysfawr ar effaith y prosiectau hyn erbyn y cyfarfod nesaf.

Gofynnodd un Aelod am i grynodeb o gyllid cyffredinol y cynllun gael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol, a chytunodd y Swyddog i hyn.

**Nodwyd.**

**9. Eithrio'r cyhoedd**

Nodwyd y gellid rhannu gwybodaeth oedd yn bersonol neu'n fasnachol sensitif wrth drafod y ceisiadau, ac felly gofynnwyd am eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, a eiliwyd gan Dr M Havard, **PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai

gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**10. Ceisiadau i'w Hystyried**

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog Cadwraeth Ffermio bod cyllideb o £100k wedi'i dyrannu yn y flwyddyn ariannol gyfredol i'r Prosiect Gwyrddu Amaethyddiaeth (roedd y gyllideb yn cwmpasu'r cynllun Gwyrddu Amaethyddiaeth, y rhaglen Ffiniau Traddodiadol a'r prosiect Tir Comin Cydnerth).

Roedd yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn amlinellu pedwar cais â blaenoriaeth a wnaed i'r gronfa ers y cyfarfod blaenorol oedd wedi'u sgorio drwy ddefnyddio matrics blaenoriaeth. Dywedwyd mai pedwar cais ffurfiol oedd wedi dod i law yn y rownd ddiweddaraf.

| **Rhif Cyf.** | **Ymgeisydd** | **Disgrifiad** | **Sgôr (20)** | **Cost** |
|---|---|---|---|---|
| GA23/CLE | Fferm Clerkenhill, Slebets, Hwlffordd | System Solar â storfa batri.<br><br>System Adfer Gwres. | 16 | £31,261.59<br><br>£6,989 |
| GA23/HAF | Hafod Grove, Trewyddel | System Solar â storfa batri. | 13 | £20,000 |
| GA23/PEA | Fferm Pearson, Sain Ffraid | System Solar â storfa batri. | 15 | £60,078.93 |
| GA23/TED | Fferm Tedion, Lawrenni | Pwmp Gwactod Llabedog Newydd â VOD<br>Neu<br>VOD ar gyfer y pympiau presennol.<br><br>System Adfer Gwres wedi'i huwchraddio | 14 | £13,000<br><br>£4,670<br><br>£9,000 |

Ystyriwyd pob cais yn fanwl yn erbyn y templed sgorio ac yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD**:

A) caniatáu cyllid i'r ceisiadau canlynol, yn amodol ar amodau arferol y grant.

| | **Rhif cyf.** | **Ymgeisydd** | **Disgrifiad** | **Cyllid a Ddyfarnwyd** |
|---|---|---|---|---|
| i ) | GA23/CLE | Fferm Clerkenhill, Slebets, Hwlffordd | System Solar a batri. | Grant o £21,000 (70% o £30,000) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ii) | GA23/HAF | Hafod Grove, Trewyddel | System Solar a batri. | Grant o £14,000 (70% o £20,000) |
| iii) | GA23/TED | Fferm Tedion, Lawrenni | Pwmp gwactod llabedog newydd â VOD a system adfer gwres wedi'i huwchraddio. | Grant o £15,400 (70% o 22,000) |

B) GA23/PEA Fferm Pearson, Sain Ffraid – y cais hwn i'w ohirio hyd nes y bydd yr ymgeisydd yn cael y caniatâd cynllunio angenrheidiol.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2024 heb eu diwygio.